Papur Briffio 10

Cefnogi Rhianta

Etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol 2007

"Mae'r cymorth a'r cyngor yr wyf wedi'u cael yn debyg i olau ym mhen draw twnnel tywyll na allwn weld ffordd ohono."

Rhiant
Gwerthusiad o
Wasanaeth Ymyrryd Teuluol Caerffili, NCH Cymru

Save the Children
Achub y Plant

Promoting Children's Rights
TROS GYNNAL
Hawliau Plant

NCH CYMRU

NSPCC
Dim mwy o greulondeb i blant. DIM.
Cruelty to children must stop. FULL STOP.

Barnardo's Cymru
RHOI'R DYFODOL YN ÔL I'N PLANT
GIVING CHILDREN BACK THEIR FUTURE

Cefnogi Rhianta

Mae Erthygl 18 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn ymgorffori hawliau rhieni i gael cymorth a statws fel y rhai sydd â'r prif gyfrifoldeb dros benderfyniadau sy'n ymwneud â'u plant. Os ydym am sicrhau'r canlyniadau gorau i blant a phobl ifanc, rhaid i Lywodraeth Cynulliad Cymru sicrhau bod rhieni'n cael yr wybodaeth a'r gefnogaeth y mae arnynt eu hangen i fagu plant yn ddiogel ac yn effeithiol. Dylai rhieni fod â rhan mewn penderfyniadau am y dulliau gorau o ddarparu gwybodaeth a chefnogaeth o'r fath.

Beth sydd wedi'i gyflawni ers 2003?

Mae cronfa Cymorth, a reolir gan Bartneriaethau'r Fframwaith Plant a Phobl Ifanc, wedi hwyluso'r gwaith o ddatblygu mwy na 200 o brosiectau cymorth i deuluoedd ledled Cymru a bydd y gronfa'n fwy yn 2006/2007. Sefydlwyd Canolfannau Plant integredig yn ardal sawl awdurdod lleol ac mae targed cyfredol i gael un ar gyfer pob awdurdod lleol. Cyhoeddwyd Strategaeth Gofal Plant a sicrhawyd £12 miliwn o gyllid Ewropeaidd (Genesis) ar gyfer cynlluniau, gan gynnwys rhai ar gyfer gofal plant, i helpu menywod i ddychwelyd i'r gwaith. Bu cynllun peilot ar gyfer gofal plant am ddim i unig rieni yn Nhor-faen. Bydd y cynllun "Dechrau'n Deg" newydd yn cynnig gofal plant rhan amser a chymorth arall i rieni plant dwy flwydd oed yn yr ardaloedd tlotaf. Mae'r rhaglen hon yn seiliedig ar dystiolaeth sy'n dangos bod ymyrryd cynnar yn fodd effeithiol i leihau anfantais yn y dyfodol. Mae Gwasanaeth Gwybodaeth Plant yn ardal pob awdurdod lleol.

Darparwyd cyngor a gwybodaeth ar rianta mewn pedwar llyfryn i rieni – Naw mis a mwy, Y Blynyddoedd Cyntaf, From Breakfast to Bedtime ac Over the top Behaviour in the Under 10's. Mae llyfryn arall yn cael ei baratoi ar ddewisiadau yn lle cosbi corfforol, gan fod Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi sefyll yn egwyddorol yn erbyn cosbi corfforol ac wedi cefnogi ymgyrch 'Sdim Curo Plant!.

Mae'r Cynllun Gweithredu Rhianta, sydd wedi'i ddatblygu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, yn gosod nodau pellach – sefydlu llinell gymorth ddwyieithog i rieni, cynnig mwy o hyfforddiant dan y rhaglen rhianta Y Blynyddoedd Anhygoel, canllawiau i bartneriaethau lleol ar gynnwys rhieni yn eu gwaith, gwaith ar anghenion neiniau a theidiau o ran cymorth, a gwaith ychwanegol ar y wefan i rieni, Rhwydrhieni. Mae ymrwymiad hefyd i hyrwyddo cyfranogiad gan rieni mewn ysgolion, ond nid oes cynlluniau manwl.

Ar y cyfan, mae polisïau Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi bod yn gefnogol i rieni ond, ochr yn ochr â hynny, mae mesurau o natur fwy gorfodol wedi datblygu. Bellach caiff AALlau wneud cais am gontractau rhianta ar gyfer triwantiaeth neu wahardd o ysgolion a gorchmynion rhianta mewn achosion o wahardd o ysgolion (roedd y pŵer hwnnw ar gael eisoes mewn achosion o driwantiaeth). Caiff Gwasanaethau Troseddau Ieuenctid wneud cais am Orchmynion Rhianta mewn achosion o ymddygiad troseddol ac ymddygiad gwrthgymdeithasol ymysg plant a phobl ifanc. Ni chyflwynwyd hysbysiadau cosb benodedig yng Nghymru. Mae strategaethau ar gyfer cefnogi rhianta neu gymorth i deuluoedd yn cael eu datblygu mewn rhai ardaloedd.

Beth yw ein pryderon presennol?

- Nid yw cyfranogiad gan rieni mewn ysgolion wedi'i ddatblygu'n ddigonol, yn enwedig yn achos y rhieni mwyaf difreintiedig, y mae eu plant yn debygol o dangyrraedd.
- Rydym yn pryderu am fod rhai rhieni yn dweud wrthym na chawsant gynnig unrhyw gymorth priodol ar gyfer rhianta cyn cael Gorchymyn Rhianta yn eu herbyn. Dylid defnyddio Gorchmynion Rhianta fel dewis olaf wedi i bopeth arall fethu.
- Mae addysg a chymorth ar gyfer rhianta yn amrywio ledled Cymru ac mae rhaglenni sydd wedi'u targedu, er eu bod yn werthfawr iawn, yn methu â chyrraedd niferoedd mawr o rieni sy'n ei chael yn anodd ymdopi â rhianta. Mae llawer o rieni i blant sydd dan anfantais, e.e. plant anabl a rhai mewn lleiafrifoedd ethnig, nad ydynt yn cael cymorth sy'n addas i ddiwallu eu hanghenion.
- Mae ansawdd gwasanaethau rhianta yn amrywio ac mae angen sicrhau eu hansawdd.
- Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gwneud safiad egwyddorol ynghylch ariannu rhaglenni rhianta, gan ariannu dim ond y rhai hynny a gyrhaeddodd y safon uchaf mewn gwerthusiadau ymchwil. Mae hyn yn cau allan llawer o raglenni a ddatblygwyd yn lleol, sy'n boblogaidd gan rieni, y mae rhywfaint o dystiolaeth i ddangos eu bod yn effeithiol, lle na fu'n bosibl fforddio gwerthusiadau gan gyrff allanol.

Argymhellion

Rydym yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i:

- Annog Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc i fabwysiadu dull strategol a chyd-drefnus o gynnig cymorth i deuluoedd/cymorth rhianta.
- Llunio canllawiau ar gynnwys rhieni yn addysg eu plant. Byddent yn cynnwys gwybodaeth i ysgolion am ddatblygu partneriaethau ag amryw o weithwyr proffesiynol a chyrff sy'n gallu hwyluso'r broses hon.
- Hybu gweithrediad y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol newydd ar gyfer gwaith gyda rhieni a dulliau ymarferol cyffredin i werthuso rhaglenni cefnogi rhianta o ran eu heffeithiolrwydd. Yn benodol, dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru wneud mwy i helpu i werthuso rhaglenni rhianta sydd wedi'u datblygu'n lleol, fel y gellir rhoi cymorth ariannol i'r rhai sy'n effeithiol.
- Sicrhau bod gwasanaethau cymorth a chynghori ar gael yn gynnar i rieni plant anabl, ochr yn ochr â gwasanaethau i'w plant.
- Sicrhau bod Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc yn cynnwys yr amrediad ehangaf posibl o rieni mewn penderfyniadau am ddatblygu gwasanaethau, er mwyn sicrhau bod gwasanaethau'n briodol i grwpiau amrywiol.
- Ariannu ymgyrch addysg gyhoeddus ar ddewisiadau yn lle cosbi corfforol.
- Darparu cyllid dros gyfnod hir (10 mlynedd) ar gyfer cynlluniau sydd wedi'u targedu fel Dechrau'n Deg.
- Diwallu anghenion teuluoedd sydd dan anfantais mewn ardaloedd gwledig diarffordd.
- Gweithredu'r Strategaeth Plant fel mater brys, gan roi sylw'n benodol i anghenion plant anabl.
- Rhoi cymorth penodol i rieni sydd yn eu harddegau, i'w helpu i barhau â'u haddysg a/neu hyfforddiant.
- Sicrhau cymorth penodol ar gyfer rhieni sy'n agored i niwed a/neu sy'n wynebu gwahaniaethu.

MANYLION CYSWLLT

BARNARDO'S CYMRU
ANDY JAMES, CYFARWYDDWR CYNORTHWYOL, POLISI
Ffôn: 01792 463357
E-bost: andy.james@barnardos.org.uk

NCH CYMRU
JAYNE ISAAC, SWYDDOG POLISI CYHOEDDUS
Ffôn: 029 20 222127
E-bost: jayne.isaac@nch.org.uk

NSPCC
SIMON JONES, CYNGHORYDD POLISI CYMRU
Ffôn: 029 20 267000
E-bost: simonjones@nspcc.org.uk

ACHUB Y PLANT
ANNE CROWLEY, UWCH GYNGHORYDD POLISI
Ffôn: 029 20 396838
E-bost: a.crowley@savethechildren.org.uk

TROS GYNNAL
JACKIE MURPHY, CYFARWYDDWR CYNORTHWYOL
Ffôn: 029 20 396974
E-bost: jackie.murphy@trosgynnal.org.uk

Cefnogwyd y papur briffio hwn gan Plant yng Nghymru